Ionawr 2007

Cynllun Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol
Papur ymgynghorol

DWP Adran Gwaith a Phensiynau

Rhagair y Gweinidog

Cyflwynwyd y cynllun Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol (IIDB) presennol, fel y'i hargymhellwyd gan adroddiad Beveridge, yn 1948. Am y tro cyntaf erioed yn y wlad hon, darparodd gynllun iawndal ar gyfer anabledd yn deillio o anafiadau neu afiechydon a achoswyd gan waith, wedi'i ariannu gan y wladwriaeth ac yn gynllun nad oedd yn seiliedig ar fai.

Fodd bynnag, mae byd gwaith a lles wedi'u trawsnewid yn llwyr ers hynny. Bellach mae ymron i hanner y gweithlu yn ferched o gymharu â llai na thraean bryd hynny, mae gwaith llafur wedi gostwng i 30% yn unig tra bod swyddi mewn swyddfeydd a gwasanaethau wedi cynyddu i 70%. Mae angen i IIDB newid yn gyfatebol. Rhaid iddo hefyd ragweld newid yn y dyfodol.

Felly, yn yr un modd ag y mae'r systemau pensiwn a nawdd cymdeithasol, a gymeradwywyd hefyd gan Beveridge, yn cael eu diwygio ar hyn o bryd i'w cyfateb i anghenion y 21ain ganrif, dylid hefyd ddiwygio cymorth gan y wladwriaeth i'r rheini a gaiff eu hanafu yn y gwaith. Mae hi'n amser i edrych ar y math o gynllun anafiadau galwedigaethol sydd ei angen arnom ar gyfer y dyfodol.

Rydym am i chi roi eich barn ar beth y dylai'r cynllun newydd ei gynnwys. Rydym am sicrhau gweithleoedd iach a diogel. Rydym am sicrhau na chaiff neb ei hepgor; na ddylai anaf yn y gwaith olygu y caiff rhywun ei orfodi i fyw bywyd o fudd-daliadau. Rydym am wneud yn siŵr bod yr adnoddau yn mynd at y bobl hynny sydd eu hangen fwyaf.

Hoffwn ddiolch i'r Cyngor Ymgynghorol Anafiadau Diwydiannol am eu cyfraniad wrth grynhoi'r cwestiynau allweddol ac yn enwedig eu cadeirydd, yr Athro Anthony Newman Taylor, am ei gymorth wrth eu llunio.

Gobeithio y bydd cynifer o bobl â phosibl yn manteisio ar y cyfle i ymateb i'r papur ymgynghorol hwn er mwyn ein cynorthwyo i lunio'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

JIM MURPHY AS

Y Gweinidog Gwladol dros Gyflogaeth a Diwygio Lles

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog 1

Pennod 1: Cyflwyniad 5

Pennod 2: Cais am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol 9

Pennod 3: Nodweddion hawlwyr Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol a Lwfans Enillion Is 11

Pennod 4: Cwestiynau allweddol ar gyfer adolygu'r cynllun Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol 18

Pennod 5: Diwygio lles: goblygiadau ar gyfer anafiadau ac afiechydon diwydiannol 23

Pennod 6: Sut i ymateb 25

Atodiad A: Elfennau'r cynllun Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol 28

Atodiad B: Mân gynlluniau 30

Atodiad C: Astudiaethau achos 31

Atodiad Ch: Rhestr o'r talfyriadau a ddefnyddir yn y papur hwn 36

Atodiad D: Rhestr ymgynghori 37

Pennod 1

Cyflwyniad

1.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn gan bob parti â diddordeb am ddiwygio'r cynllun Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol (IIDB). Cyflwynwyd IIDB yn 1948 a darpara gymorth i'r rheini sydd wedi dioddef anaf neu afiechyd o ganlyniad i'w gwaith. Yn ystod y blynyddoedd ers hynny gwelwyd newidiadau aruthrol i fyd gwaith a lles. Rydym am adolygu'r cynllun IIDB i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ein cymdeithas fodern a'i fod yn gydnaws ag agenda Diwygio Lles ehangach y Llywodraeth.

1.2 Yn wahanol i'r cyfnod yn dilyn y rhyfel, mae gweithlu heddiw wedi'i ddiogelu gan ystod helaeth a chynhwysfawr o gymorth lles p'un a ydynt mewn gwaith neu allan o waith. Er enghraifft, mae credydau treth a chymorth budd-dal tai yn cynorthwyo'r rheini sy'n gweithio ar gyflog is, yn enwedig y rheini â theuluoedd. Mae'r ystod o gyfleoedd cyflogaeth hefyd yn fwy. Hanner canrif yn ôl, realiti'r sefyllfa oedd na fyddai'r rheini a gâi eu hanafu yn y gwaith o bosibl wedi gallu gweithio eto, neu byddent wedi gweithio ar gyflog dipyn is. Heddiw mae llawer mwy o gyfleoedd i ailhyfforddi, dysgu sgiliau newydd a dychwelyd i'r gwaith.

1.3 Un o flaenoriaethau'r Llywodraeth yw Diwygio Lles, gan adeiladu gwladwriaeth les newydd ar gyfer yr 21ain ganrif gan ganolbwyntio ar hawliau a chyfrifoldebau. Mae 2.3 miliwn yn fwy o bobl mewn gwaith heddiw nag oedd yn 1997 – yn bennaf o ganlyniad i lwyddiant polisïau newydd O Fudd-dal i Waith. Pan fyddwn yn cynorthwyo pobl drwy gyfrwng y system budd-daliadau, credwn y dylai hyn fod yn gysylltiedig â fframwaith clir o hawliau a chyfrifoldebau.

1.4 Mae nodau ac amcanion yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn ategu polisïau lles ehangach y Llywodraeth ac mae'n bwysig bod yr adolygiad o gynllun IIDB[1] yn eu hategu. Ein nod yw cael gwared ar dlodi ymhlith plant, sicrhau cydraddoldeb i bobl anabl, sicrhau gwelliannau parhaus o ran tlodi ymhlith pensiynwyr, gostwng nifer yr achosion o salwch sy'n gysylltiedig â gwaith ac anafiadau angheuol yn y gweithle, sicrhau cyfradd cyflogaeth o 80 y cant a symleiddio'r system lles fel bod cwsmeriaid yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau.

1.5 Yn y ddogfen hon rydym wedi nodi cwestiynau yr hoffem i chi roi eich barn arnynt (gweler Pennod 4). Mae'r cwestiynau'n mynd i'r afael â'r materion allweddol i lunio cynllun galwedigaethol ar gyfer anafiadau ac afiechydon a achosir drwy waith a fydd yn diwallu anghenion ein cymdeithas orau, a hynny y tu hwnt i iawndal ariannol yn unig, heddiw ac ar gyfer y dyfodol.

1.6 Nid yw'r ddogfen ymgynghorol hon yn ymrwymo DWP i unrhyw gamau gweithredu neu wariant wedi'i raglennu. Rydym yn ceisio'ch barn cyn i ni benderfynu ar natur y diwygiadau.

1 Llywodraethir y broses o ddarparu nawdd cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon gan bolisi cydraddoldeb sefydledig, a dderbynnir yn gyffredinol, â Phrydain Fawr. Cred y Llywodraeth y dylai hyn barhau fel sail darpariaeth yn y dyfodol yng Ngogledd Iwerddon a bydd yn ei ystyried wrth weithredu unrhyw ddiwygiadau i'r cynllun IIDB.

Cefndir

Cynlluniau'r wladwriaeth

1.7 Mae IIDB yn fudd-dal di-dreth, anghyfrannol, nad yw'n ddibynnol ar brawf modd, a delir i bobl sydd wedi mynd yn anabl o ganlyniad i ddamwain yn y gwaith neu o ganlyniad i afiechyd diwydiannol. Telir IIDB ar sail 'dim bai', hyd yn oed os bydd y person yn parhau i weithio neu'n dychwelyd i'r gwaith. Hynny yw, nid oes angen i'r hawliwr brofi unrhyw esgeulustod ar ran y cyflogwr er mwyn bod yn gymwys i gael budd-dal.

1.8 Mae'r cynllun IIDB yn cynnwys sawl elfen (gweler y manylion llawn yn Atodiad A). Budd-dal Anabledd yw'r prif daliad, sy'n darparu budd-dal wythnosol i bobl sy'n colli gallu o ryw fath oherwydd damwain ddiwydiannol neu afiechyd diwydiannol penodedig. Mae Lwfans Enillion Is (REA) yn daladwy yn annibynnol ar Fudd-dal Anabledd pan fo'r anaf neu'r afiechyd yn gwneud yr hawliwr yn analluog i barhau â'i alwedigaeth arferol. (Diddymwyd REA ar gyfer afiechydon a ddechreuodd ar ôl 1 Hydref 1990 neu anafiadau a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad hwnnw, ond gellir parhau i dderbyn ceisiadau pan fo dyddiad dechrau'r afiechyd neu ddyddiad y ddamwain cyn y dyddiad hwnnw. Roedd 2,176 o geisiadau newydd am REA is yn 2005/06.) Dim ond canran fechan o geisiadau a gwariant mae'r elfennau eraill yn ei chynrychioli.

1.9 Yn ogystal â'r cynllun IIDB, mae sawl cynllun llai a reolir gan DWP ac Adran Gogledd Iwerddon. Er enghraifft, mae Deddf Niwmoconiosis ac ati (Iawndal Gweithwyr) 1979 ('Deddf 1979') yn darparu ar gyfer cyfandaliadau mewn rhai amgylchiadau. Ceir gwybodaeth am y cynlluniau hyn yn Atodiad B. Rydym yn cynnwys y cynlluniau hyn yn yr adolygiad.

Iawndal cyfraith sifil

Yswiriant Gorfodol Atebolrwydd Cyflogwyr

1.10 Os caiff person ei anafu neu os aiff yn sâl oherwydd gwaith a chred i'r cyflogwr fod yn esgeulus, mae hawl gan y person sydd wedi'i anafu i ddwyn achos yn erbyn y cyflogwr am iawndal drwy gyfraith sifil. Mae Deddf Atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1969 yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr sydd â busnes ym Mhrydain Fawr[2] drefnu'r yswiriant i fodloni'r atebolrwydd hwnnw. Mae'r system yn seiliedig ar fai: hynny yw mae'n rhaid i gyflogeion ddangos mai'r cyflogwr oedd yn esgeulus.

2 Yng Ngogledd Iwerddon, y ddeddfwriaeth gyfatebol yw Gorchymyn Atebolrwydd y Cyflogwr (Offer Diffygiol ac Yswiriant Gorfodol) (Gogledd Iwerddon) 1972.

Adennill iawndal

1.11 Gall y Llywodraeth adennill unrhyw daliadau Budd-dal Anabledd o iawndal a ddyfernir yn y llysoedd sifil, neu o setliadau a wneir y tu allan i'r llys, am yr anaf neu'r afiechyd a achosodd yr anabledd. Cyflwynwyd hyn ar yr egwyddor na ddylai person dderbyn iawndal dwbl am yr un digwyddiad. Gweinyddir y cynllun adennill iawndal gan yr Uned Adennill Iawndal (yr Uned), sy'n rhan o DWP.[3]

Sut mae'r cynllun adennill yn gweithio

1.12 Rhaid i'r sawl sy'n talu'r iawndal, er enghraifft y person atebol, hysbysu'r Uned Adennill Iawndal o fewn 14 diwrnod o dderbyn cais am iawndal gan y person a anafwyd. Cyn i'r sawl sy'n talu'r iawndal wneud taliad iawndal rhaid iddynt wneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol[4] am Dystysgrif o Fudd-daliadau Adenilladwy. Bydd yr Uned, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, yn rhoi Tystysgrif i'r sawl sy'n talu'r iawndal a chopi i'r person a anafwyd neu eu cynrychiolydd. Yn unol â'r ddeddfwriaeth, rhaid i'r Dystysgrif gael ei rhoi o fewn 28 diwrnod i dderbyn y cais. Y budd-daliadau a gwmpesir gan y cynllun sy'n berthnasol i'r papur ymgynghorol hwn yw:

- IIDB; a
- REA.

Gwelir manylion pellach o'r modd y mae'r cynllun hwn yn gweithio ar y rhyngrwyd (www.dwp.gov.uk/cru/#crs).

1.13 Mae'n bwysig nodi nad yw Yswiriant Gorfodol Atebolrwydd Cyflogwyr ac adennill iawndal yn rhan o'r adolygiad, ond fe'i nodir yma fel cyd-destun. Yr adolygiad sydd i ystyried pa daliadau IIDB a adenillir.

1.14 Mae'r penodau canlynol yn rhoi mwy o wybodaeth am y cynllun IIDB a'r adolygiad:

- Mae Pennod 2 yn rhoi trosolwg cryno o wneud cais am IIDB a chrynodeb o ba fudd-dal a delir ar gyfer IIDB a REA.
- Mae Pennod 3 yn rhoi mwy o wybodaeth am geisiadau IIDB a REA er enghraifft, faint o bobl sy'n hawlio a pha ddiwydiannau y maent yn debygol o fod wedi gweithio ynddynt.
- Mae Pennod 4 yn rhestru'r cwestiynau allweddol ar gyfer yr adolygiad sydd wedi'u grwpio o dan nifer o themâu gwahanol.
- Mae Pennod 5 yn gosod adolygiad y cynllun IIDB yng nghyd-destun diwygiadau lles.
- Mae Pennod 6 yn esbonio sut rydym yn cynnal yr adolygiad a sut y gallwch ymateb i'r papur ymgynghorol hwn.

3 Yng Ngogledd Iwerddon, gweinyddir y cynllun gan yr Uned o fewn yr Asiantaeth Nawdd Cymdeithasol.

4 Neu Adran Gogledd Iwerddon.

1.15 Mae'r cynllun IIDB presennol wedi'n gwasanaethu'n dda am fwy na 50 mlynedd. Nawr rhaid i ni greu cynllun olynol ar gyfer yr 21ain ganrif ac mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i bobl helpu i lunio'r ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol i'r rheini a gaiff eu hanafu neu eu gwneud yn sâl gan eu gwaith.

Pennod 2

Cais am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol

Trosolwg o wneud cais am IIDB[5]

2.1 Os bydd rhywun am wneud cais am IIDB oherwydd **damwain** yn y gwaith, bydd yn anfon ei ffurflen gais i'r Ganolfan Byd Gwaith, a fydd yn cysylltu â'r cyflogwr i gadarnhau manylion y ddamwain. Unwaith y bydd swyddog penderfyniadau wedi derbyn bod y person wedi dioddef damwain ddiwydiannol, gellir gofyn i'r person gael archwiliad meddygol. Ar ôl yr archwiliad meddygol, penderfynir ar y cais gan swyddog penderfyniadau. Bydd swm yr IIDB sy'n daladwy yn dibynnu ar lefel yr anabledd.

2.2 Os bydd rhywun am wneud cais am IIDB am **afiechyd penodedig**[6], bydd yn anfon ei ffurflen gais i'r Ganolfan Byd Gwaith a gellir gofyn iddynt gael archwiliad meddygol. Yn yr archwiliad meddygol, bydd y meddyg yn pennu a yw'r person yn dioddef o afiechyd penodedig, ac, os felly, lefel yr anabledd ac am faint y disgwylir iddo barhau. Ar ôl yr archwiliad meddygol, penderfynir ar y cais gan swyddog penderfyniadau. Bydd y swyddog penderfyniadau yn edrych ar gyngor y meddyg ac unrhyw dystiolaeth arall sydd ar gael. Bydd swm yr IIDB sy'n daladwy yn dibynnu ar i ba raddau y mae'r person wedi cael ei wneud yn anabl yn sgîl yr afiechyd.

Beth a delir

2.3 Mae taliadau IIDB yn amrywio o £25.42 i £127.10 yr wythnos. Mae'r swm sy'n daladwy yn dibynnu ar lefel canran yr anabledd sy'n deillio o'r anabledd neu'r anableddau perthnasol. Fel arfer, ni thelir IIDB pan fo'r asesiad anabledd islaw 14 y cant. Fodd bynnag, os yw'r hawliwr yn dioddef o niwmoconiosis, bysinosis neu fesothelioma, telir IIDB gydag isafswm o asesiad anabledd o 1 y cant. Ers 2002, talwyd dyfarniadau ar gyfer mesothelioma yn ôl y gyfradd 100 y cant fel cydnabyddiaeth o ddifrifoldeb yr afiechyd. Ers Ebrill 2006, talwyd dyfarniadau ar gyfer rhai mathau o ganser yr ysgyfaint sy'n gysylltiedig ag asbestos[7] yn ôl y gyfradd 100 y cant hefyd.

5 Noder mai trosolwg cryno yw hwn o'r broses bresennol – am fanylion llawn o sut i wneud cais, ewch i www.dwp.gov.uk/advisers/db1/print_db1.asp

6 Un o dros 70 o afiechydon penodedig a dderbynnir fel risg benodol o alwedigaeth – am restr lawn, ewch i www.dwp.gov.uk/advisers/db1/further_info.asp

7 Yr afiechydon perthnasol yw: D8 – carsinoma sylfaenol yr ysgyfaint pan fo tystiolaeth ategol o asbestosis; a D8A – carsinoma sylfaenol yr ysgyfaint.

2.4 Nid yw IIDB yn daladwy ar gyfer byddardod galwedigaethol hyd nes bydd yr asesiad yn cyrraedd 20 y cant. Cynhaliwyd adolygiad manwl o'r trothwy hwn gan y Cyngor Ymgynghorol Anafiadau Diwydiannol ond daethpwyd i'r casgliad nad oedd y dystiolaeth yn cefnogi'r ystyriaeth o'i leihau yn unol â'r trothwy 14 y cant sy'n gymwys yn fwy cyffredinol.[8]

2.5 Gellir talu IIDB gyda budd-daliadau eraill fel Budd-dal Analluogrwydd neu Bensiwn Ymddeol y Wladwriaeth, a gellir ei dalu p'un a yw'r person yn gweithio, allan o waith neu wedi ymddeol. Fodd bynnag, caiff IIDB a REA eu hystyried yn llawn wrth benderfynu ar hawl i Gymhorthdal Incwm.

2.6 Caiff dyfarniadau REA (gweler Atodiad A) eu troi'n Lwfans Ymddeol wrth gyrraedd Oedran Ymddeol y Wladwriaeth pan fo'r cwsmer wedi rhoi'r gorau i weithio. Fodd bynnag, pan fydd rhywun yn gwneud ei gais cychwynnol am REA, fwy na thri mis ar ôl Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, mae ei ddyfarniad REA yn daladwy am oes ac ni ellir ei droi'n Lwfans Ymddeol. Er mai'r uchafswm taliad wythnosol o REA yw £50.84, yr uchafswm cyfradd wythnosol ar gyfer Lwfans Ymddeol yw £12.71.

2.7 Yr uchafswm cyfradd wythnosol cyfredol o IIDB yw £127.10 ac uchafswm cyfradd wythnosol REA yw £50.84, ond taliad wythnosol cyfartalog IIDB a REA yw £36.00 a £31.00 yn y drefn honno.

2.8 Gall pobl sy'n dioddef afiechydon penodol sy'n gysylltiedig â llwch, er enghraifft mesothelioma, pan nad oes cyflogwr a allai fod yn atebol i dalu cais am iawndal, wneud cais o dan Ddeddf 1979. Yn ogystal â chael IIDB, cânt gyfandaliad o iawndal. Dim ond o dan Ddeddf 1979 y gwneir cyfandaliadau fel y rhain ac maent ond yn cyfrif am swm cymharol fach o gost gyffredinol y cynllun IIDB. Tua £13,000 yw'r cyfandaliad a wneir o dan Ddeddf 1979 ar gyfartaledd, er y gwneir taliadau ar raddfa lithrig gan ddibynnu ar lefel ganran yr anabledd ac oedran y person.

2.9 Dyfernir IIDB am gyfnodau penodol: dyfarniad am oes, dyfarniad dros dro a dyfarniadau terfynol a gyfyngir gan amser. Mae dyfarniad dros dro yn golygu bod angen adolygiad yn y dyfodol; mae dyfarniadau terfynol a gyfyngir gan amser am gyfnod penodol, fel arfer 12 i 24 mis, pan na fydd yn debygol y caiff y cyfnod ei ymestyn, er enghraifft pan mai torri coes yw'r anaf dan sylw. Mae tua 10 y cant o'r dyfarniadau yn rhai am oes, 60 y cant am gyfnod dros dro a 30 y cant yn ddyfarniadau terfynol a gyfyngir gan amser.

2.10 Ar hyn o bryd mae 350,000 o bobl yn gwneud cais am IIDB/REA a chyfanswm cost hyn bob blwyddyn yw tua £776 miliwn.

2.11 Mae'r bennod nesaf yn edrych yn fanylach ar nodweddion y bobl sy'n gwneud cais am IIDB/REA.

8 Am fanylion pellach, gweler adroddiad y Cyngor *Occupational Deafness* (Cm 5072), sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.iiac.org.uk

Pennod 3

Nodweddion hawlwyr Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol a Lwfans Enillion Is

3.1 Ar hyn o bryd, mae'r baich achosion IIDB/REA yn sefydlog gyda 350,000 o hawlwyr yn y DU ar hyn o bryd. Mae ychydig dros hanner yr hawlwyr cyfredol o oedran gweithio (53 y cant).

3.2 Caiff tua 13,000 o geisiadau newydd eu talu bob blwyddyn: mae 76 y cant o hawlwyr o oedran gweithio. Daw ymron i bob cais newydd yn sgîl damwain gan hawlwyr o oedran gweithio (94 y cant) ond mae'r cyfnod cudd[9] ar gyfer llawer o afiechydon penodedig yn golygu y daw dros hanner y ceisiadau newydd yn sgîl afiechydon penodedig (60 y cant) gan bobl dros Oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

3.3 Dynion sydd i gyfrif yn bennaf am y baich achosion cyfredol, gyda 80 y cant o hawlwyr newydd a hawlwyr cyfredol yn ddynion. Mae cyfran y ceisiadau newydd yn sgîl damwain sy'n llwyddiannus a ddaw gan fenywod yn uwch nag ar gyfer afiechydon penodedig (30 y cant o'i gymharu â 7 y cant).

9 Mae'r cyfnod cudd yn golygu bod symptomau'r afiechyd yn cymryd amser hir cyn ymddangos ar ôl i'r person ddod i gyswllt gyntaf â'r cyfrwng a achosodd yr afiechyd.

Ffigur 1: Dadansoddiad oedran a rhyw ar gyfer hawlwyr IIDB a REA



Y Deyrnas Unedig, Mawrth 2006

3.4 Dengys Ffigur 2 hawliadau cyfredol fesul rhanbarth gan adlewyrchu crynodiad hanesyddol y diwydiannau trwm a chloddio mewn ardaloedd penodol.

Ffigur 2: Hawlwyr cyfredol fesul rhanbarth



Mawrth 2006

Ffigur 3: Ceisiadau newydd i'w talu yn ôl y math o gais a ph'un a yw'n berson o oedran gweithio



Y Deyrnas Unedig, Ebrill 2005 – Mawrth 2006
Noder: Caiff hawliwr â dau fath o gais, ee IIDB a REA ei gyfrif ddwywaith.

Ffigur 4: Ceisiadau newydd i'w talu yn ôl y math o gais a rhyw



Y Deyrnas Unedig, Ebrill 2005 – Mawrth 2006
Noder: Caiff hawliwr â dau fath o gais, ee IIDB a REA ei gyfrif ddwywaith.

3.5 Ceisiadau yn sgîl damweiniau yw mwyafrif y ceisiadau newydd i'w talu.

Ffigur 5: Ceisiadau newydd i'w talu yn ôl y math o gais



Y Deyrnas Unedig, Ebrill 2005 – Mawrth 2006

Tueddiadau mewn ceisiadau am Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol a Lwfans Enillion Is

3.6 Rhagwelir y bydd y baich achosion ar gyfer IIDB a REA yn gostwng, yn seiliedig ar ostyngiadau a ragamcenir yn nifer y ceisiadau newydd i'w talu. Mae'r gostyngiad a ragamcenir mewn ceisiadau newydd yn seiliedig ar dueddiadau mewn data yn y gorffennol. Mae cryn ansicrwydd yn perthyn i'r rhagamcanion oherwydd data gweinyddol hanesyddol annibynadwy ar IIDB/REA. Credwn na fydd y duedd am i lawr mewn ceisiadau yn sgîl damweiniau yn newid. Rydym wedi gwneud cynnydd aruthrol ers 1974, ers cyflwyno'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, a disgwyliwn, ar y cyfan, y bydd iechyd a diogelwch yn y gwaith yn parhau i wella. Mae dros 5,000 o fywydau wedi'u hachub, a llawer mwy o anafiadau difrifol wedi'u hatal, mewn gweithleoedd ledled Prydain, drwy atal damweiniau dros y 30 mlynedd diwethaf. Mae hyn yn ystyried patrymau cyfnewidiol cyflogaeth tuag at swyddi ag iddynt risg lai fel yn y sector gwasanaeth.

3.7 Er mwyn rhoi hyn yn ei gyd-destun, yn 1975 roedd 614 o farwolaethau'n gysylltiedig â gwaith. Yn 2005/06, roedd 212. Yn wir, yn y pedair blynedd diwethaf yn unig, mae'r nifer o ddyddiau a gollir yn sgîl salwch ac anafiadau sy'n gysylltiedig â'r gwaith wedi syrthio o 40 miliwn i 30 miliwn. Fodd bynnag, mae risg y gall afiechydon penodedig nas rhagwelir ar hyn o bryd godi, gan arwain at asesiadau ychwanegol am y math hwn o gais.

Damweiniau diwydiannol fesul diwydiant

3.8 Mae'r ceisiadau yn sgîl damweiniau yn adlewyrchu lefelau damwain fesul diwydiant ond, fel y disgrifir ym mharagraffau 3.6 a 3.7, mae'r damweiniau sy'n gysylltiedig â gwaith yn gostwng. Ym meysydd diwydiant gweithgynhyrchu, adeiladu a chloddio mae damweiniau fwyaf tebygol o ddigwydd.

Ffigur 6: Ceisiadau newydd am IIDB a REA i'w talu fesul diwydiant



Y Deyrnas Unedig, Ebrill 2005 – Mawrth 2006

Ffigur 7: Ceisiadau newydd, cyflogaeth a damweiniau fesul diwydiant

	Canran o geisiadau IIDB/ REA newydd i'w talu	Canran o ddamweiniau mawr	Canran o bobl a gyflogir yn y diwydiant	Canran o bobl a gyflogir yn y diwydiant sy'n fenywod
Amaethyddiaeth	1%	2%	1%	23%
Pysgota	0%		0%	5%
Cloddio a chwarelydda	13%	1%	0%	21%
Gweithgynhyrchu	28%	26%	13%	25%
Trydan, nwy a dŵr	2%	2%	1%	27%
Adeiladu	13%	16%	8%	10%
Cyfanwerthu, adwerthu a moduro	7%	11%	15%	49%
Gwestai a bwytai	1%	3%	4%	55%
Trafnidiaeth, storio a chyfathrebu	13%	10%	7%	24%
Cyfryngu ariannol	0%	1%	5%	51%
Eiddo, rhentu a gweithgareddau busnes	2%	4%	11%	41%
Gweinyddu ac amddiffyn y cyhoedd	7%	8%	7%	50%
Addysg	2%	5%	9%	71%
Iechyd a gwaith cymdeithasol	7%	6%	12%	79%
Cymunedol, cymdeithasol a phersonol arall	3%	5%	6%	51%
Arall	0%	0%	0%	52%
Pob un	**100%**	**100%**	**100%**	**46%**

Y Deyrnas Unedig
Ceisiadau IIDB/REA newydd i'w talu, Ebrill 2005 – Mawrth 2006
Cyflogaeth: Arolwg o'r Llafurlu, gwanwyn 2006
Damweiniau: damweiniau y rhoddir gwybod i'r awdurdodau perthnasol amdanynt, 1999–2001 (Prydain Fawr yn unig)

Ceisiadau afiechydon penodedig a salwch a achosir gan waith

3.9 Fel y gwelir yn Ffigur 8, mae afiechydon sy'n gysylltiedig ag asbestos a chloddio yn parhau i gyfrif am nifer fawr o'r ceisiadau afiechydon penodedig newydd. Mae 68 y cant o'r holl geisiadau newydd i'w talu yn rhai ar gyfer niwmoconiosis neu fesothelioma ymledol. Bydd ceisiadau newydd am y mathau hyn o afiechydon yn arafu yn y pen draw ond mae'r cyfnod cudd hir yn golygu y byddant yn parhau i ffurfio cyfran sylweddol o'r baich achosion yn y dyfodol agos.

3.10 Ceir cryn dipyn yn fwy o geisiadau gan ddynion na menywod (mae 93 y cant o geisiadau newydd i'w talu yn ymwneud â dynion). Adlewyrcha hyn y nifer uwch o ddynion sy'n gweithio mewn diwydiannau trwm, fel cloddio ac adeiladu llongau, a fu'n gyfrifol am gymaint o afiechyd galwedigaethol. Amlinella Ffigur 8 y ceisiadau newydd am afiechydon penodedig mewn dau gyfnod, 2002/03 a 2005/06, yn ôl yr afiechydon perthnasol, gan ddangos dosbarthiad y ceisiadau.

3.11 Ni chwmpesir salwch a ystyrir fel salwch sy'n gysylltiedig â gwaith mewn cyfnod mwy diweddar, fel iselder neu ofid, gan y cynllun afiechydon penodedig. Os byddant yn digwydd o ganlyniad i ddamwain ddiwydiannol, cânt eu cynnwys gan ddarpariaethau'r ddamwain, ond, ac eithrio'r achosion hyn, mae'r dystiolaeth y cânt eu hachosi gan waith yn llai cryf o lawer nag ar gyfer yr afiechydon hynny ar y rhestr benodedig. Mae amodau o'r fath i'w cael ar draws ystod ehangach o alwedigaethau, ac ymhlith mwy o'r gweithlu benywaidd a'r hunan-gyflogedig.

Ffigur 8: Ceisiadau afiechydon penodedig newydd i'w talu fesul afiechyd



Y Deyrnas Unedig, Ebrill 2005 – Mawrth 2006

3.12 Mae'r bennod nesaf yn amlinellu cwestiynau ar gyfer yr adolygiad.

Pennod 4

Cwestiynau allweddol ar gyfer adolygu'r cynllun Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol

4.1 Er mwyn ei gwneud yn gyfleus i'r ymgynghoriad, rydym wedi grwpio'r cwestiynau allweddol ynghyd o dan nifer o wahanol themâu. Mae gan bob thema gyfres o gwestiynau gyda gwybodaeth gefndir yn rhagarweiniad iddynt sy'n amlinellu'r sefyllfa gyfredol a'r materion sy'n deillio o hynny.

Pwrpas

4.2 Cyflwynwyd y cynllun IIDB presennol yn 1948 ac fe'i hariennir gan y wladwriaeth. Darpara'r cynllun budd-daliadau anghyfrannol ar gyfer anabledd pan fo'r anabledd wedi deillio o ddamwain yn y gwaith neu o ganlyniad i afiechyd galwedigaethol. Mae'n gynllun nad yw'n seiliedig ar fai: nid oes yn rhaid i gyflogeion a gaiff eu hanafu neu eu gwneud yn sâl yn sgîl gwaith ddangos bod y cyflogwr wedi bod yn esgeulus. Amcanion y cynllun gwreiddiol oedd:

- darparu budd-daliadau i bobl sy'n mynd yn anabl oherwydd anafiadau neu afiechydon drwy gyflogaeth enillwyr cyflogedig;
- darparu cymorth â chostau ychwanegol gofal sydd ei angen oherwydd anabledd diwydiannol; a
- galluogi gweithwyr nad oeddent bellach yn abl i gyflawni eu galwedigaeth arferol oherwydd afiechyd galwedigaethol i symud i waith ar dâl is, i ffwrdd o'r risg i'w hiechyd, gyda chymorth ariannol.

4.3 Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn talu budd-dal wythnosol am gyfnod penodol neu amhenodol ac, yn ogystal, ar gyfer rhai afiechydon sy'n gysylltiedig â llwch gellir talu iawndal fel cyfandaliad. Pan gyflwynwyd y cynllun, roedd ganddo rôl o ran atal gweithiwr rhag gorfod parhau mewn gwaith a fyddai'n debygol o waethygu ei afiechyd. Roedd REA yn rhoi iawndal rhannol oherwydd colli enillion os oedd yr hawliwr yn analluog i ddychwelyd i'w alwedigaeth wreiddiol o ganlyniad i'w ddamwain neu afiechyd a'i fod wedi gorfod cymryd swydd a oedd yn talu llai. Daethpwyd â hynny i ben ar ôl 1 Hydref 1990 am unrhyw anaf neu ddechrau afiechyd galwedigaethol ar ôl y dyddiad hwnnw.

4.4 Credwn y dylai cynllun galwedigaethol modern adlewyrchu'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ceisio'i wneud ar raddfa ehangach. Ar gyfer unigolion a theuluoedd mae manteision gwaith yn amlwg. Gwaith yw'r llwybr gorau allan o dlodi, mae'n cryfhau annibyniaeth ac urddas, mae'n creu dyheadau teuluol, meithrin cynhwysiant cymdeithasol gwell a gall wella iechyd a lles unigolyn. Rydym am gael cynllun sy'n helpu pobl sydd wedi'u hanafu neu sydd wedi dal afiechyd yn y gwaith drwy ddarparu adsefydlu fel y gallant wella o'u hanaf neu afiechyd yn gyflym a dychwelyd i'r gwaith. Er bod y rhan fwyaf o'r cynllun IIDB yn syml, mae rhannau ohono'n gymhleth ac yn anodd i'w deall. Rydym am gael cynllun sy'n ei gwneud yn glir beth y gall pobl ei ddisgwyl a chynllun sy'n hawdd i'w weinyddu. Rydym am sicrhau bod gan bobl amgylchedd diogel ac iach i weithio sydd hefyd yn dda i fusnes.

4.5 Mae'r byd yn wahanol iawn nawr i'r hyn yr oedd pan gyflwynwyd y cynllun gyntaf. Rydym yn galluogi pobl â salwch neu anabledd i aros mewn cyflogaeth, neu ddod o hyd i gyflogaeth newydd, drwy'r cynlluniau peilot Llwybrau at Waith a'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth newydd. I'r rheini sy'n dychwelyd i weithio ar gyflog is, mae credydau treth ar gael i sicrhau eu bod hwy a'u teuluoedd yn rhydd rhag tlodi a gall y rheini na allant weithio barhau i dderbyn credydau er mwyn cael Pensiwn y Wladwriaeth llawn a gallant wedyn wneud cais am Gredyd Pensiwn os byddant ar incwm isel.

C1. Beth yw'r achos dros gynllun anafiadau ac afiechydon galwedigaethol nad yw'n seiliedig ar fai?

C2. Beth ddylai pwrpas cynllun o'r fath fod?

C3. A ddylai fod yn gynllun iawndal, cynllun budd-dal, neu'r ddau?

Cymorth galwedigaethol

4.6 Nid yw'r cynllun cyfredol yn cynnwys nac yn annog adsefydlu, ailhyfforddi nac unrhyw gymorth wrth helpu person sâl neu sydd wedi'i anafu i ddychwelyd i'r gwaith. Nid yw ychwaith yn ategu strategaeth Iechyd, Gwaith a Lles[10] ar y cyd yr Adran Iechyd/Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/DWP a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2005. Nid yw Llwybrau at Waith neu gymorth arall a gyflwynwyd o safbwynt Budd-dal Analluogrwydd o anghenraid ar gael i bobl sy'n cael budd-dal. Mae'r cymorth hwn yn darparu pecyn cytbwys o hawliau a chyfrifoldebau, ac mae'n anelu at dargedu nifer o'r rhwystrau sy'n gysylltiedig ag iechyd a'r rhwystrau personol ac allanol i ddychwelyd i'r gwaith.

4.7 Mae'r adolygiad o gynllun IIDB yn gysylltiedig â'r dasg o wella iechyd a diogelwch yn y gweithle. Drwy weithio mewn partneriaeth â chyflogwyr, cyflogeion, gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd ac yswirwyr – a gan adeiladu ar y strategaeth Iechyd, Gwaith a Lles – rydym am greu gweithleoedd lle caiff iechyd, diogelwch a lles cyflogeion eu diogelu gan sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i helpu pobl i wella eu hiechyd a'u lles eu hunain. Gyda gostyngiad o 10 y cant mewn damweiniau yn y gwaith ers 1997, mae'r DU heddiw gyda'r goreuon yn y byd o safbwynt iechyd a diogelwch. Ac eto, mae 30 miliwn o ddyddiau gwaith yn parhau i gael eu colli bob blwyddyn oherwydd salwch ac anafiadau galwedigaethol.[11]

10 *Health, Work and Well-being: Caring for our future*, www.health-and-work.gov.uk

11 Comisiwn Iechyd a Diogelwch, ystadegau iechyd a diogelwch 2005/06.

4.8 Bydd angen i unrhyw ddiwygiadau ystyried adeiladu ar ymrwymiad y Llywodraeth i wella iechyd a lles y boblogaeth o oedran gweithio drwy gynnwys adsefydlu galwedigaethol mewn cynllun IIDB modern, er mwyn lleihau'r bwlch rhwng trin anaf neu salwch a dychwelyd i'r gwaith. Yn ddiau, mae hyn er budd yr unigolyn, y cyflogwr a'r gymuned ehangach.

C4. Pa gymorth ddylai cynllun ei gynnig a sut dylid darparu unrhyw gymorth?

C5. Sut dylid integreiddio cynllun newydd gyda mesurau ar gyfer atal damweiniau a salwch sy'n gysylltiedig â gwaith, adsefydlu, cadw staff, ailhyfforddi a dychwelyd i'r gwaith?

Gwneud penderfyniadau

4.9 Mae'r cynllun presennol yn annibynnol ar gyflogwyr a'u hyswirwyr ac fe'i gweinyddir gan y Ganolfan Byd Gwaith (yr Asiantaeth Nawdd Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon). Mae'r swyddog penderfyniadau yn gweithredu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol neu Adran Gogledd Iwerddon ac ef sy'n penderfynu ar hawl rhywun i fudd-dal. Mae'r swyddog penderfyniadau yn cymryd cyngor ar agweddau meddygol cais gan feddyg o'r Gwasanaethau Meddygol a rhaid ystyried y cyngor meddygol yng ngoleuni unrhyw dystiolaeth arall. Mae gan hawlwyr yr hawl i apelio i dribiwnlys annibynnol os ydynt am herio penderfyniad swyddog penderfyniadau, ac mae hefyd prosesau apêl i'r Comisiynydd Nawdd Cymdeithasol a Thŷ'r Arglwyddi.

4.10 Gall person sy'n mynd yn sâl oherwydd gwaith wneud cais am IIDB os yw'r afiechyd sydd ganddynt yn un o'r afiechydon penodedig. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol neu Adran Gogledd Iwerddon benodi afiechyd os oes risg gydnabyddedig i weithiwyr mewn galwedigaeth, a gellir cadarnhau'r cyswllt rhwng yr afiechyd a'r alwedigaeth neu gellir ei dybio'n rhesymol mewn achosion unigol.

4.11 Ar hyn o bryd, rhoddir cyngor annibynnol i'r Llywodraeth gan y Cyngor Ymgynghorol Anafiadau Diwydiannol ar benodi afiechydon a gweithredu'r cynllun. Mae'r Cyngor yn cynnwys arbenigwyr gwyddonol, meddygol a chyfreithiol a chynrychiolwyr o sefydliadau cyflogwyr a chyflogeion. Er bod achos ac effaith yn gymharol glir o safbwynt mwyafrif y damweiniau, yn aml, mae angen tystiolaeth feddygol ac ystadegol arbenigol, gymhleth er mwyn cadarnhau achos galwedigaethol yr afiechydon.

C6. Sut gallwn sicrhau y bodlonir egwyddorion cydraddoldeb, tryloywder a symlrwydd?

C7. Sut dylid penderfynu ar anafiadau ac afiechydon i'w cynnwys yn y cynllun?

C8. Sut dylid penderfynu ar y penderfyniad ynghylch hawl?

Cwmpas

4.12 Crëwyd y cynllun yn bennaf ar gyfer gweithluoedd mewn diwydiannau trwm, a adlewyrchwyd yn y ffaith mai dynion sydd i gyfrif am 81 y cant o'r baich achosion IIDB presennol. Dros y 60 mlynedd diwethaf, wrth i'r boblogaeth weithiol dyfu, bu hefyd newid ym maes cyflogaeth tuag at y diwydiannau gwasanaeth a gwelwyd gostyngiad mawr yn nifer y rheini a gyflogir mewn diwydiant trwm. Bellach mae menywod yn ganran uwch o lawer yn y gweithlu, mae gweithwyr

yn fwy tebygol o newid cyflogwyr a gyrfaoedd yn ystod eu bywydau gwaith nag o'r blaen ac mae tuedd gynyddol o hunan-gyflogaeth. Nid yw'r cynllun wedi newid i gyfateb â phatrwm cyfnewidiol a natur cyflogaeth ac felly nid oes iddo berthnasedd i rannau mawr o'r gweithlu modern.

4.13 Ar hyn o bryd mae'r cynllun yn cwmpasu enillwyr cyflogedig ond nid yr hunan-gyflogedig, sydd bellach i gyfrif am oddeutu 12 y cant o'r holl gyflogaeth.[12] Pan gyflwynwyd y cynllun yn wreiddiol, nid oedd yr hunan-gyflogedig yn debygol o fod wedi'u cyflogi ym mhrif ddiwydiannau'r dydd. Yn y gymdeithas sydd ohoni, mae'r hunan-gyflogedig i'w cael yn y rhan fwyaf o sectorau ac maent yn hanfodol i lwyddiant economaidd y DU. Mae'r hunan-gyflogedig yr un mor debygol â chyflogeion i ddioddef o salwch neu anabledd sydd yn eu barn hwy wedi'u hachosi neu ei waethygu gan waith. Caiff llawer o'r hunan-gyflogedig eu cynnwys o dan yswiriant preifat i ddiogelu rhag colli incwm yn sgîl anaf neu salwch. Pe byddai'r cynllun yn cael ei ymestyn i gynnwys yr hunan-gyflogedig, byddai'r costau'n cynyddu.

4.14 Ar hyn o bryd ni chwmpesir pobl sy'n mynd yn sâl drwy amlygiad amgylcheddol, er enghraifft gwragedd a phlant sydd wedi'u hamlygu i ffibrau asbestos o ddillad gwaith eu gwŷr neu'u tadau ac sydd yn cael mesothelioma o ganlyniad i hynny. Nid yw'r cynllun presennol yn cwmpasu'r rheini a gaiff eu gwneud yn sâl drwy amlygiad amgylcheddol ehangach, er enghraifft, y rheini sy'n byw gerllaw ffatri asbestos ac sy'n datblygu salwch sy'n gysylltiedig ag asbestos o ganlyniad i hynny.

4.15 Mae darpariaeth iawndal gan y cynllun presennol i'r rheini a gaiff eu gwneud yn anabl drwy ddamwain neu afiechyd wedi'u hachosi gan alwedigaeth heb yr angen i ddangos esgeulustod, hynny yw, mae'n gynllun nad yw'n seiliedig ar fai.

4.16 Ar hyn o bryd mae'r cynllun fel arfer yn talu budd-dal wythnosol ac mewn rhai achosion cyfandaliad iawndal. Nid oes hyblygrwydd yn y cynllun presennol i greu pecyn sy'n cydnabod anghenion gwahanol, ee cymorth ar gyfer ailhyfforddi ac adsefydlu a thaliadau dros dro i reoli cyfnodau o addasu. Gallai pecyn hyblyg hefyd gynnwys cymorth galwedigaethol i hwyluso dychwelyd i'r gwaith (gweler paragraffau 4.6 i 4.8).

C9. Sut gallai'r cynllun ddiwallu orau anghenion unigolion yr effeithir arnynt gan anaf neu afiechyd a achosir drwy waith?

C10. Pwy ddylid ei gynnwys gan gynllun newydd?

Ariannu

4.17 Ariennir y cynllun presennol gan y wladwriaeth ac mae'n costio tua £776 miliwn y flwyddyn ar gyfer y DU gyfan. Mae'n fudd-dal anghyfrannol, di-dreth nad yw'n seiliedig ar brawf modd ac mae'n gynllun nad yw'n seiliedig ar fai. Trethiant cyffredinol sy'n talu am y cynllun.

4.18 Mae'r cynllun IIDB yn cynnwys dau gynllun, sef y cynlluniau cyn-1948 ac mae hefyd yn cynnwys Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol, a ddiddymwyd ar gyfer marwolaethau ar ôl 11 Ebrill 1988.

4.19 Mae costau gweinyddol IIDB a chynlluniau cysylltiedig oddeutu £16.6 miliwn y flwyddyn. Mae'r costau gweinyddol hyn tua 2 y cant o gyfanswm cost y cynllun.

12 Arolwg o'r Llafurlu, gwanwyn 2006.

4.20 Nid oes gan y cynllun presennol unrhyw fesurau sy'n annog ataliaeth ac nid yw'n darparu unrhyw gymhellion ariannol sy'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch i gyflogwyr helpu i leihau risg damweiniau a salwch rhag digwydd. Hefyd, ni cheir cymhellion i annog adsefydlu cynnar. Gall y Llywodraeth adennill unrhyw daliadau IIDB o iawndal a ddyfernir yn y llysoedd sifil i hawliwr am yr anaf neu'r afiechyd sydd wedi achosi'r anabledd. Fodd bynnag, gwyddom nad yw bob amser yn amlwg i unigolion pam y ceisir ad-daliad a faint a geisir, ac rydym hefyd yn ymwybodol bod y system bresennol o adennill taliadau IIDB yn rhy gymhleth ym marn llawer o randdeiliaid.

4.21 Gall rhywun sy'n gwneud cais am IIDB hefyd wneud cais am fudd-daliadau eraill y wladwriaeth a gall barhau i hawlio IIDB hyd yn oed os byddant yn dychwelyd i'r gwaith. Gan ddibynnu ar lefel anabledd y person, gellir gwneud cais am Lwfans Gweini Cyson a Lwfans Byw i'r Anabl yn ogystal ag IIDB. Ystyrir IIDB yn llawn wrth gyfrifo budd-daliadau a chredydau treth prawf modd.

C11. Sut dylid ariannu unrhyw gynllun newydd?

C12. Pwy fyddai'n gweinyddu cynllun newydd?

C13. Sut gellir gwneud unrhyw gynllun newydd yn symlach a mwy cost effeithiol i'w weinyddu?

C14. Sut dylai unrhyw gynllun yn y dyfodol fod yn berthnasol i ffurfiau eraill o iawndal neu fudd-dal a sicrhau nad yw unrhyw fudd-daliadau yn y cynllun yn gwrthdaro â budd-daliadau sy'n bodoli eisoes?

Cymariaethau rhyngwladol

4.22 Mae gan nifer o wledydd eraill gynlluniau sy'n talu iawndal i bobl a gaiff eu hanafu neu eu gwneud yn sâl oherwydd gwaith. Mae llawer o'r cynlluniau hyn yn gwneud taliadau iawndal mwy o'u cymharu â'r DU ond nid ydynt yn caniatáu i bobl droi at ymgyfreitha sifil.

4.23 Yn yr Almaen, er mai'r corff llywodraethol yw Gweinyddiaeth Ffederal Llafur a Materion Cymdeithasol, rheolir y cynllun gan Berufsgenossenschaften (cronfa yswiriant corfforaethau proffesiynol). Telir y lefel o fudd-daliadau fel canran o enillion blaenorol, ac ariennir y cynllun gan yswiriant cyflogwyr.

4.24 Yn yr Iseldiroedd nid oes yswiriant (cymdeithasol) arbennig ar gyfer damweiniau yn y gwaith ac afiechydon galwedigaethol. Caiff y risgiau hyn eu cwmpasu'n rhannol gan reoliadau yng Nghod Sifil yr Iseldiroedd ac yn rhannol yng nghynlluniau yswiriant cymdeithasol cyffredinol cyflogeion: gofal iechyd, budd-daliadau arian parod salwch, mamolaeth, henaint a'r rhai sy'n goroesi.

4.25 Mae gwledydd eraill yn ariannu eu cynlluniau mewn ffyrdd gwahanol, er enghraifft mae Seland Newydd yn codi treth ar gyflogwyr. Yn Ffrainc ariennir y cynllun gan yswiriant cyflogwyr, er bod y wladwriaeth yn talu 15 y cant o'r rheini sy'n derbyn budd-dal. Mae rhai gwledydd, gan gynnwys UDA, Canada, Awstralia a'r Almaen, yn cysylltu costau a delir gan gwmnïau i'w perfformiad iechyd a diogelwch.

C15. Beth gallwn ei ddysgu o gymariaethau rhyngwladol?

Pennod 5

Diwygio lles: goblygiadau ar gyfer anafiadau ac afiechydon diwydiannol

5.1 Yn Ionawr 2006, cyhoeddodd y Llywodraeth Bapur Gwyrdd ar ddiwygio lles – *Bargen newydd ar gyfer lles: Galluogi pobl i weithio*. Un o brif amcanion y rhaglen Diwygio Lles yw cynyddu'r gyfradd gyflogaeth i bobl anabl yn sylweddol a lleihau'r bwlch rhwng hyn a'r gyfradd i bobl nad ydynt yn anabl. Rydym yn bwriadu gostwng nifer y bobl sy'n cael budd-daliadau analluogrwydd 1 filiwn. Mae rhai o'r mesurau a gynigir yn y Papur Gwyrdd yn ymdrin â materion sy'n berthnasol i'r cynllun IIDB, gan gynnwys:

- gwella iechyd yn y gweithle drwy weithio mewn partneriaeth â chyflogwyr, cyflogeion, pobl broffesiynol ym maes iechyd ac yswirwyr;
- creu gweithleoedd iach a gwella mynediad at gymorth iechyd galwedigaethol o safon, gan leihau'r tebygolrwydd y bydd pobl yn datblygu problemau iechyd yn y lle cyntaf; a
- hwyluso gwell rheolaeth absenoldeb ac ymyrraeth gynnar i helpu cyflogeion sy'n mynd yn sâl i aros yn y gwaith, neu, pan na fo hyn yn bosibl, eu cefnogi wrth wella a dychwelyd i'r gwaith mor gynnar â phosibl.

5.2 Bydd angen i gynllun galwedigaethol modern adlewyrchu cynigion y Llywodraeth, yn enwedig adsefydlu galwedigaethol, ac ategu O Fudd-dal i Waith. Rydym am gael cynllun sy'n helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith cyn gynted â phosibl yn dilyn anaf neu salwch. Mae angen i ni nodi cymhellion i fusnesau er mwyn annog darpariaeth cymorth iechyd galwedigaethol i gyflogeion.

5.3 Gall rhywun gael IIDB tra'n parhau i fod mewn cyflogaeth lawn. Gall pobl a gaiff eu hanafu yn y gwaith ac mae eu henillion yn cael eu heffeithio, wneud cais am gymorth ariannol arall yn ogystal, er enghraifft Budd-dal Analluogrwydd, neu gredydau treth os ydynt mewn gwaith.

5.4 Pan gyflwynwyd IIDB, nid oedd diogelwch wedi'i ariannu gan y wladwriaeth i rywun a fyddai wedi gorfod cymryd swydd a oedd yn talu llai. Heddiw mae'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn rhoi gwarant o lefel benodol o incwm i bobl sy'n gweithio ac mae credydau treth yn rhoi cymorth i deuluoedd sy'n gweithio'n galed.

5.5 Mae'r cynllun IIDB presennol yn galluogi'r sawl sy'n ei gael i dderbyn iawndal tra'n parhau i weithio. I'r perwyl hwn, mae'n ategu strategaeth y Llywodraeth o hyrwyddo gwaith fel y ffurf orau ar les. Ond, ers diddymu REA ers 1 Hydref 1990, nid oes unrhyw beth i helpu ac annog pobl sy'n cael anaf neu afiechyd galwedigaethol i ddychwelyd i'r gwaith neu gymryd swydd arall. Nid yw'r system bresennol yn effeithiol o ran cynnig adsefydlu i'r rheini sydd wedi'u hanafu gyda'r nod o'u cael i ddychwelyd i'r gwaith cyn gynted â phosibl.

5.6 Byddai angen i gynllun galwedigaethol newydd, modern lynu at yr egwyddorion o fod yn syml a chost effeithiol i'w weinyddu, yn hyblyg o ran natur y cymorth y byddai'n ei ddarparu ac wedi'i integreiddio ag adsefydlu ac ataliaeth.

Casgliad

5.7 Credwn mai nawr yw'r amser iawn i gynnal adolygiad o gynllun IIDB. Mae byd gwaith wedi newid ers cyflwyno'r cynllun ac mae'n parhau i wneud, ac mae angen i'r cynllun ddiwallu gofynion ein cymdeithas fodern. Mae adolygiad o gynllun IIDB yn gydnaws â nod y Llywodraeth o ddiwygio'r system les. Rydym am sicrhau y caiff pobl sydd wedi'u hanafu neu sydd wedi dal afiechyd yn y gwaith eu hadsefydlu fel y gallant wella'n gyflym a dychwelyd i'r gwaith.

5.8 Mae diddordeb gennym yn eich barn ar ffurf bosibl cynllun galwedigaethol newydd ac felly rydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn â meddwl agored.

Pennod 6

Sut i ymateb

6.1 Os hoffech ymateb i rai o'r cwestiynau uchod neu bob un ohonynt, anfonwch lythyr, ffacs neu e-bost.

Enw cyswllt: Steve Daly

Cyfeiriad: DWP, 2nd Floor, The Adelphi, 1–11 John Adam Street, London WC2N 6HT

Ffacs: 020 7962 8524

E-bost: adelphi.iidbreview@dwp.gsi.gov.uk

6.2 Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 22 Ebrill 2007.

6.3 Wrth ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad mwy, nodwch yn glir pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli a, lle y bo'n gymwys, sut y daeth yr aelodau i'r farn honno.

6.4 Atodir rhestr gychwynnol o'r rheini yr ymgynghorwyd â hwy yn Atodiad D, ond fe'ch anogir i roi gwybod i eraill a allai fod â diddordeb. Ceir fersiwn electronig o'r ddogfen hon yn www.dwp.gov.uk/consultations/2007/. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau o eraill a fyddai o bosibl am gael eu cynnwys yn y broses hon, cysylltwch â ni. Os oes gennych unrhyw ymholiadau am bapur yr ymgynghoriad neu sut i ymateb, gallwch hefyd gysylltu â ni dros y ffôn ar 020 7962 8597.

6.5 Efallai y bydd angen i'r wybodaeth a anfonir gennych gael ei rhoi i gydweithwyr yn DWP a'i chyhoeddi mewn crynodeb o ymatebion a geir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ynghyd ag ymateb gan y Llywodraeth.

6.6 O ganlyniad i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, gall yr holl wybodaeth a gynhwysir yn eich ymateb, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu. Drwy roi gwybodaeth bersonol at ddibenion yr ymgynghoriad cyhoeddus, deellir eich bod yn cytuno i'w datgelu a'i chyhoeddi. Os nad dyma'r achos, dylech gyfyngu ar unrhyw wybodaeth bersonol a roddir, neu ei dileu'n gyfan gwbl. Os hoffech i'r wybodaeth yn eich ymateb i'r ymgynghoriad gael ei chadw'n gyfrinachol, dylech egluro pam fel rhan o'ch ymateb, er na allwn sicrhau y gwnawn hyn. Ni allwn sicrhau cyfrinachedd hyd yn oed os yw eich system TG yn hawlio hynny'n awtomatig. Os hoffech drafod hyn, cysylltwch â ni. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar wefan yr Adran Materion Cyfansoddiadol yn www.dca.gov.uk/foi/guidance/exguide/index.htm.

6.7 Gallwch wneud copïau ychwanegol o'r ddogfen hon a'r atodiadau heb ofyn caniatâd.

6.8 Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Steve Daly.

Camau nesaf

6.9 Bydd y Llywodraeth yn anelu at gynhyrchu crynodeb o ymatebion i'r ddogfen hon, a chamau nesaf, o fewn tri mis i ddiwedd yr ymgynghoriad hwn. Caiff yr ymatebion eu cyhoeddi ar dudalen ymgynghoriad rhyngrwyd DWP: www.dwp.gov.uk/consultations/2007/.

Pa mor dda y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn gennym?

6.10 **Mae DWP yn croesawu adborth ar ba mor dda y mae'n cynnal ymgynghoriadau. Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y broses o gynnal yr ymgynghoriad hwn (yn hytrach na'r materion a godir) cysylltwch â Chydlynydd Ymgynghoriadau DWP. Yn arbennig, dywedwch wrthym os nad yw'r ymgynghoriad yn bodloni'r meini prawf a nodir isod, yn eich barn chi. Mae croeso i chi hefyd awgrymu sut y gellid gwella'r broses ymgynghori ymhellach. Cysylltwch â:**

Roger Pugh
Corporate Customer Affairs
Room 2A, Britannia House
2 Ferensway
Hull HU2 8NF
Ffôn: 01482 609571
Ffacs: 01482 609658
Ffôn symudol: 07887 732176
E-bost: roger.pugh@dwp.gsi.gov.uk

Meini prawf yr ymgynghoriad

6.11 Cynhelir yr ymgynghoriad yn unol â'r Cod Ymarfer ar Ymgynghori. Nodir meini prawf yr ymgynghoriad isod. Mae'r fersiwn llawn i'w weld yn www.cabinetoffice.gov.uk/regulation/consultation/index.asp

Y chwe maen prawf ymgynghori

1. **Ymgynghori'n eang drwy gydol y broses, gan ganiatáu o leiaf 12 wythnos ar gyfer ymgynghoriad ysgrifenedig o leiaf unwaith yn ystod y broses o ddatblygu'r polisi.**

2. **Bod yn glir ynghylch eich cynigion, ar bwy y gallent effeithio, pa gwestiynau a ofynnir a'r amserlen ar gyfer ymatebion.**

3. **Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn glir, yn gryno ac yn hygyrch i bawb.**

4. **Rhoi adborth ar yr ymatebion a gafwyd a sut y dylanwadodd y broses ymgynghori ar y polisi.**

5. **Monitro effeithiolrwydd eich adran o ran ymgynghori, gan gynnwys defnyddio cydlynydd ymgynghori penodedig.**

6. **Sicrhau bod eich ymgynghoriad yn dilyn arfer gorau gwell rheoleiddio, gan gynnwys cynnal Asesiad Effaith Reoleiddiol os yw'n briodol.**

Atodiad A

Elfennau'r cynllun Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol

Budd-dal Anabledd

Fel y'i disgrifiwyd ym Mhennod 1.

Lwfans Enillion Is (REA)

Gellir gwneud cais am REA mewn amgylchiadau pan fo'r hawliwr wedi cael asesiad o anabledd am anaf neu afiechyd galwedigaethol sy'n golygu ei fod yn analluog i barhau yn ei gyflogaeth arferol. Gellir ei dalu ar ei ben ei hun neu'n ychwanegol at IIDB. Fe'i cyflwynwyd o 1 Hydref 1986 gan ddisodli Lwfans Caledi Arbennig.

Er mwyn bod yn gymwys rhaid i berson gael asesiad o anabledd o 1 y cant o leiaf, bod yn analluog yn barhaus o gyflawni ei alwedigaeth arferol o ganlyniad i'r ddamwain neu afiechyd a bod yn analluog i weithio i safon gyfatebol.

Mae'n iawndal ar gyfer colli enillion pan fo rhywun, o ganlyniad i ddamwain ddiwydiannol neu afiechyd penodedig, yn methu â dychwelyd i'w alwedigaeth arferol neu i weithio mewn swydd sy'n talu'r un lefel o enillion, a adwaenir fel gwaith o safon gyfatebol.

Diddymwyd REA ar 1 Hydref 1990 ond gellir parhau i dderbyn ceisiadau pan fo dyddiad dechrau'r afiechyd neu ddyddiad y ddamwain cyn y dyddiad hwnnw.

Nid oes hawl i'r budd-dal am ddamweiniau neu afiechydon sy'n digwydd ar neu ar ôl 1 Hydref 1990.

Lwfans Ymddeol

Mae Lwfans Ymddeol yn disodli REA pan fydd person yn cyrraedd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ac, os bydd mewn cyflogaeth reolaidd, yn gweithio am lai na 10 awr yr wythnos.

Lwfans Gweini Cyson

Gellir talu Lwfans Gweini Cyson os bydd angen gofal a sylw parhaus ar rywun sy'n cael IIDB ar y gyfradd 100 y cant o ganlyniad i'w anaf neu afiechyd.

Mae'n daladwy ar bedair cyfradd wahanol gan ddibynnu ar lefel y gofal sy'n angenrheidiol.

Mae taliad y budd-dal yn gorgyffwrdd â Lwfans Gweini a Lwfans Byw i'r Anabl (elfen gofal).

Ni chaiff ei dalu ar ôl 28 diwrnod mewn ysbyty.

Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol

Mae hwn yn lwfans ychwanegol sy'n daladwy i rywun sy'n cael Lwfans Gweini Cyson ar un o'r ddwy gyfradd uchaf ac y bydd ei angen am weini yn barhaus.

Atodiad B

Mân gynlluniau

Yn ogystal ag IIDB, mae'r cynlluniau canlynol hefyd yn bodoli:

- Mae **Deddf Niwmoconiosis ac ati (Iawndal Gweithwyr) 1979**[13] yn cynnig cyfandaliad iawndal i bobl sy'n dioddef o rai afiechydon sy'n gysylltiedig â llwch, gan gynnwys niwmoconiosis a salwch sy'n gysylltiedig ag asbestos, neu sy'n ddibynyddion i ddioddefwr sydd wedi marw. Fe'u telir pan fydd pob cyflogwr perthnasol wedi rhoi'r gorau i fasnachu, pan nad oes unrhyw achos wedi'i ddwyn am iawndal oherwydd anabledd y dioddefwr, a bod gan y dioddefwr hawl i IIDB oherwydd yr afiechyd.

- Mae Deddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973 yn darparu ar gyfer y **Cynllun Anafiadau Diwydiannol Cyfatebol** i ddarparu iawndal i bobl ifanc ac oedolion am ddamweiniau ac afiechydon sy'n digwydd tra'u bod ar raglenni hyfforddi yn y gwaith ac na allant wneud cais o dan y cynllun IIDB statudol am nad oeddent yn enillwyr cyflogedig.

- Telir **Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol** i weddw rhywun a fu farw o ganlyniad i ddamwain neu afiechyd yn y gwaith. Diddymwyd hyn am farwolaethau a ddigwyddodd ar neu al ôl 11 Ebrill 1988; fodd bynnag, mae pobl yn hawlio'r budd-dal hwn o hyd.

Er y cyflwynwyd y cynllun IIDB presennol yn 1948, mae dau gynllun yn dal i fodoli a ddaeth i fodolaeth cyn hyn ac rydym yn parhau i dalu budd-dal i'r hawlwyr. Adwaenir y cynlluniau hyn fel y cynlluniau cyn-1948:

- Mae'r **Cynllun Budd-dal Niwmoconiosis, Bysinosis ac Afiechydon Amrywiol** yn darparu budd-dal i bobl a ddaliodd niwmoconiosis, bysinosis neu afiechydon penodol eraill o ganlyniad i waith cyn 5 Gorffennaf 1948. Mae'n rhaid eu bod heb dderbyn taliadau Iawndal Gweithwyr, Budd-daliadau Anafiadau Diwydiannol neu iawndal am yr afiechyd. Mae'r budd-dal yn anghyfrannol, yn ddi-dreth ac nid yw'n gysylltiedig ag incwm.

- Mae'r **Cynllun Atodiad Iawndal Gweithwyr** yn fudd-dal arall sy'n daladwy ar gyfer damweiniau diwydiannol neu afiechydon diwydiannol sydd i'w priodol i gyflogaeth cyn 5 Gorffennaf 1948. Fe'i telir i bobl sy'n cael Iawndal Gweithwyr gan eu cyflogwyr am afiechyd neu ddamwain a ddioddefwyd yn y gwaith cyn 5 Gorffennaf 1948. Mae'r lwfansau a delir o dan y cynllun hwn yn ategu taliadau wythnosol (neu hawl i daliadau o'r fath) o dan y Deddfau Iawndal Gweithwyr. Mae'r budd-dal yn anghyfrannol, yn ddi-dreth ac nid yw'n gysylltiedig ag incwm.

13 Y ddeddfwriaeth gyfatebol yng Ngogledd Iwerddon yw Gorchymyn Niwmoconiosis (Iawndal Gweithwyr) (Gogledd Iwerddon) 1979.

Atodiad C

Astudiaethau achos

Rydym wedi cynnwys nifer fach o geisiadau gan bobl sy'n hawlio yn erbyn y cynllun IIDB ar hyn o bryd i roi syniad o sut y mae'r cynllun yn gweithio.

Astudiaeth achos 1

Math o anaf: Damwain

Disgrifiad o'r anaf: Cafodd menyw 64 oed ddamwain yn y gwaith gan anafu ei phenelin a'i garddwrn chwith

Aseswyd canran anabledd IIDB o: 14%

Statws cyflogaeth presennol: Anhysbys

IIDB: Dyfarnwyd am gyfnod o 23 wythnos

Nid oedd taliadau'n bosibl o ddyddiad y ddamwain. Mae hyn oherwydd mewn ceisiadau ar gyfer damweiniau a wneir ar ôl 6 Ebrill 1983 nid oes hawl i IIDB am y 90 diwrnod cyntaf. Mae'r cyfnod 90 diwrnod yn dechrau o ddyddiad y ddamwain ac nid ystyrir dydd Sul.

Taliad wythnosol presennol: £25.42

Astudiaeth achos 2

Math o anaf: Damwain

Disgrifiad o'r anaf: Anafodd dyn 45 oed ei ben-glin dde

Aseswyd canran anabledd IIDB o: Amrywiol

Asesiad cychwynnol:	Am 10 wythnos – 15%
Ailaseswyd:	Am 12 mis pellach – 20%
Ailaseswyd:	Am yr 8 mlynedd nesaf – 30%
Ailaseswyd:	Yna am oes – 35%

Statws cyflogaeth presennol: Anhysbys

IIDB: Dyfarnwyd am oes

Taliad wythnosol presennol: £50.84

Astudiaeth achos 3

Math o anaf: Damwain

Disgrifiad o'r anaf: Cafodd dyn 82 oed ddamwain tua 50 mlynedd yn ôl gan anafu'i gefn

Aseswyd canran anabledd IIDB o: Amrywiol

Asesiad cychwynnol: Am 9 mis – 40%
Ailaseswyd: Am 6 mis pellach – 40%
Ailaseswyd: Am 11 mlynedd pellach – 30%
Ailaseswyd: Yna am oes – 20%

Statws cyflogaeth presennol: Wedi ymddeol

IIDB: Dyfarnwyd am oes

REA: Dyfarnwyd ar y gyfradd uchaf o 27/2/96 i 6/11/07

Taliad wythnosol presennol: IIDB £25.42
REA £50.84

Astudiaeth achos 4

Math o anaf: Damwain

Disgrifiad o'r anaf: Anafodd menyw 61 oed ei chefn a'i choes chwith

Aseswyd canran anabledd IIDB o: 20%

Statws cyflogaeth presennol: Wedi ymddeol

IIDB: Dyfarnwyd o 1990 ar gyfraddau gwahanol am oes

REA: Dyfarnwyd ar y gyfradd uchaf o 27/2/96 i 6/11/07

Taliad wythnosol presennol: IIDB £25.42
Lwfans Ymddeol £12.71

Astudiaeth achos 5

Math o anaf: Damwain

Disgrifiad o'r anaf: Anafodd dyn 56 oed waelod ei gefn

Aseswyd canran anabledd IIDB o: 1%

Statws cyflogaeth presennol: Cyflogedig

IIDB: Nid yw'n daladwy am fod yr asesiad anabledd yn is na 14%

REA: Dyfarnwyd ar yr uchafswm

Taliad wythnosol presennol: REA £50.84

Astudiaeth achos 6

Math o anaf: Afiechyd

Disgrifiad o'r anaf: Byddardod galwedigaethol

Aseswyd canran anabledd IIDB o: 30%

Statws cyflogaeth presennol: Cyflogedig

IIDB: Dyfarnwyd o 20/5/06 am oes

Taliad wythnosol presennol: £38.13

Astudiaeth achos 7

Math o anaf: Afiechyd

Disgrifiad o'r anaf: Niwmoconiosis (asbestosis)

Aseswyd canran anabledd IIDB o: 5%

Statws cyflogaeth presennol: Wedi ymddeol

IIDB: Dyfarnwyd am gyfnod o dair blynedd i'w adolygu wedyn

Mae'r ddeddfwriaeth yn darparu os canfyddir bod person yn dioddef o niwmoconiosis, tybir ei fod yn dioddef o golli cynneddf gydag anabledd o ganlyniad sydd heb fod yn llai nag 1 y cant ac o ganlyniad bydd hawl ganddynt i bensiwn ar gyfradd o 10 y cant.

Taliad wythnosol presennol: £12.71

Cyfandaliad Deddf 1979: Tua £2,600

Cwmpesir yr afiechyd hwn gan Ddeddf 1979. Dyfarnwyd taliad o IIDB i'r hawliwr a, gan nad oedd y cyflogwyr y credir iddynt achosi'r afiechyd bellach yn masnachu, roedd yn gymwys am daliad o dan Ddeddf 1979.

Astudiaeth achos 8

Math o anaf: Afiechyd

Disgrifiad o'r anaf: Niwmoconiosis (silicosis)

Aseswyd canran anabledd IIDB o: 35%

Statws cyflogaeth presennol: Anhysbys

IIDB: Dyfarnwyd am gyfnod o 18 mis i'w adolygu wedyn

Taliad wythnosol presennol: £50.84

Astudiaeth achos 9

Math o anaf: Afiechyd

Disgrifiad o'r anaf: Mesothelioma

Aseswyd canran anabledd IIDB o: 100%

Statws cyflogaeth presennol: Wedi ymddeol

IIDB: Dyfarnwyd am oes
Lwfans Gweini Cyson: Heb ei benderfynu eto
Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol: Heb ei benderfynu eto

Taliad wythnosol presennol: £127.10

Cyfandaliad Deddf 1979: £10,000

Astudiaeth achos 10

Math o anaf: Afiechyd

Disgrifiad o'r anaf: Mesothelioma

Aseswyd canran anabledd IIDB o: 100%

Statws cyflogaeth presennol: Wedi ymddeol

IIDB: Dyfarnwyd o 23/5/06 am oes
Lwfans Gweini Cyson: Heb ei benderfynu eto
Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol: Heb ei benderfynu eto

Taliad wythnosol presennol: £127.10

Cyfandaliad Deddf 1979: £12,700

Atodiad Ch

Rhestr o'r talfyriadau a ddefnyddir yn y papur hwn

Deddf 1979	Deddf Niwmoconiosis ac ati (Iawndal Gweithwyr) 1979
DWP	Adran Gwaith a Phensiynau
IIDB	Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol
REA	Lwfans Enillion Is

Atodiad D

Rhestr ymgynghori

Allan Gore CF (APIL)
Asbestos Action (Tayside)
Asbestos Removal Contractors Association
Asbestos Support Groups' Forum (Lloegr)
Ashton Morton Slack
Association of Insurance and Risk Managers (AIRMIC)
Association of Personal Injury Lawyers (APIL)
Association of Run-Off Companies (ARC)
Augustines Injury Law
Barking and Dagenham Asbestos Victims Support Group
Berrymans Lace Mawer
L Bingham and Co.
Bradford Asbestos Victims Support Group
British Lung Foundation
British Lung Foundation, Cymru
British Thoracic Society
Thomas Broadbent and Sons Ltd
Canolfan Iechyd Cymru
Cheshire Asbestos Victims Support Group
Clydebank Asbestos Group
Clydeside Action on Asbestos
Cydffederasiwn Adeiladu
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI)
Cydffederasiwn Diwydiant Prydain, yr Alban
Cyfadran Meddygaeth Alwedigaethol
Cymdeithas Afiechydon Galwedigaethol ac Amgylcheddol (OEDA)
Cymdeithas Bar Anafiadau Personol
Cymdeithas Broceriaid Yswiriant Prydain (BIBA)
Cymdeithas Diwydiannau Cemegol
Cymdeithas y Cyfreithwyr
Cymdeithas Gweithgynhyrchwyr a Masnachwyr Modurol
Cymdeithas Meddygaeth Alwedigaethol

Cymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI)
Cyngor Rheolau Llys y Sesiwn
Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol
Cyngor Ymgynghorol Anafiadau Diwydiannol (IIAC)
Cyngor Datblygu a Diwydiant yr Alban
Cyngor Rheolau Llys y Siryf
Cyngres Undebau Llafur yr Alban
Cyngres yr Undebau Llafur (TUC)
Derbyshire Asbestos Support Team
EEF, Sefydliad y Gweithgynhyrchwyr
Equitas Ltd
Giles Eyre a Stephen Glynn
Fentons Solicitors
Ffederasiwn y Meistri Adeiladu
Ffederasiwn Busnesau Bach
Ffederasiwn Busnesau Bach, yr Alban
Ffederasiwn Cenedlaethol yr Adeiladwyr
Ffederasiwn Cenedlaethol Contractwyr Dymchwel
Fforwm Cyfreithwyr Yswiriant (FOIL)
Field Fisher Waterhouse
Godfrey Morgan Solicitors
Greater Manchester Asbestos Victims Support Group
Gweithrediaeth yr Alban
Grŵp Seneddol Pob Plaid ar Iechyd a Diogelwch
Grŵp Inter:Resolve
Grŵp Seneddol y Glowyr
Hartlepool and District Asbestos Support Group
Humphreys and Co.
Irwin Mitchell
IUA of London
Is-adran Polisi Porthladdoedd
John Pickering and Partners
Lamport Bassitt Solicitors
Leigh Day and Co.
Liberata Legal Costs Management
Lloyd's Market Association (LMA)
Master Whitaker
Merseyside Asbestos Victims Support Group
Mesothelioma UK

Milburns Solicitors
Morrish and Co.
Northeast Asbestos Support and Awareness Group
Pannone Solicitors
Pattinson and Brewer Solicitors
Dr M Peake, Ymgynghorydd ac Uwch Ddarlithydd mewn Meddygaeth Anadlol
Pictons Solicitors
PricewaterhouseCoopers LLP
Resolute Management Inc.
Ridings Asbestos Support and Awareness Group
Rowley Ashworth
Royal & SunAlliance
Russell Jones and Walker
Scottish Engineering
Scottish Textile Manufacturers Association
Sefydliad y Cyfarwyddwyr
Sefydliad y Cyfarwyddwyr, yr Alban
Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol
Sefydliad Ymchwil Iechyd Galwedigaethol Prydain
Sheffield and Rotherham Asbestos Group
Siambrau Masnach Prydain
Siambrau Masnach yr Alban
Simpson Millar
Swindon and South West Asbestos Group
Swyddfa'r Alban
Tenovus, yr Elusen Ganser
Thompsons Solicitors (Newcastle)
Thompsons Solicitors
Trysorlys EM
UK Major Ports Group Ltd (UKMPG)
Yr Adran dros Faterion Cyfansoddiadol (DCA)
Yr Adran Iechyd
Yr Adran Masnach a Diwydiant (DTI)
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Y Comisiwn Iechyd a Diogelwch
Y Weinyddiaeth Amddiffyn

Gellir cael copïau ychwanegol o'r cyhoeddiad hwn am ddim gan:

Steve Daly
Department for Work and Pensions
2nd Floor
The Adelphi
1–11 John Adam Street
London WC2N 6HT
Ffôn: 020 7962 8597

Os oes gennych anawsterau gyda'ch lleferydd neu'ch clyw, gallwch gysylltu â ni drwy ffôn testun ar 020 7712 2707.

Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o 9am i 4pm.

Mae fersiwn Saesneg y cyhoeddiad hwn ar gael fel copi caled, am ddim o'r un cyfeiriad, ac ar-lein o **www.dwp.gov.uk/consultations/2007/**

Cyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau

29 Ionawr 2007

www.dwp.gov.uk

978-1-84695-755-0